# Yr her:

Rydym mewn argyfwng byd-eang ond yn lwcus o'r bobl pwysig ac allweddol sydd yma i'n helpu. Pwy yw'r bobl pwysig yma sydd o hyd yn barod i'n helpu?

Beth am gasglu gwybodaeth a ffeithiau amdanynt?



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Pwy sy'n gofalu amdanom mewn argyfwng?
- Oes modd adnabod y pobl yma yn y gymuned?
- Mewn argyfwng, wrth bwy buasai chi yn gofyn am help?
- Pa mor bwysig ydyw hi i aelodau o'r gymuned weithredu'n gyfrifol er lles y gymuned gyfan?
- Pa swyddi a gaiff eu cyflawni gan bobl yn y gymuned?
- Sut allwn gysylltu gyda'r bobl yma?
- Sut y gall aelodau ein cymdeithas gydweithio i ddatrys materion?

YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Argyfwng! Pwy bydd yn ein helpu? (Bl 3 & 4)

## Rhaid gwneud... / Must do...

- Dysgu geiriau aml-ddefnydd – rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer.
- Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd.

- Ymarfer Tablau Mathemateg (cofiwch i ddefnyddio TTBlast ar J2Blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)

Bl 3 – 2, 3, 4, 5 a 10
Bl 4 – 2, 3, 4,5, 6, 8 a 10

- Adio a thynnu

Bl 3 i ddefnyddio rhifau 2 ddigid ee 67 + 45 = / 86 – 34 =
Bl 4 i ddefnyddio rhifau 3 digid ee 467 + 382 =

- Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd
- Darllen yr amser fesul 5 munud ac yna pob munud

Cadw'n heini – beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw sessions 9:00 – 9:30am ar Youtube (cofwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')
Helpu – Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.
Trafod - Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.

## Dylech wneud... / Should do...

| | Gorsaf Iaith | Cyfri a Chyfrifo | Cwtsh Creadigol |
|---|---|---|---|
| ★ | Rydych yn mynd i gwrdd ag un o arwyr y gymuned. Ewch ati i greu holiadur gyda set o gwestiynau i ofyn iddyn nhw. Cofiwch, rydych am ddysgu am ei swydd, nid pethau personol amdanynt. | Mae angen creu ysbyty argyfwng mosaic ar bapur sgwar. Mae angen i chi greu symiau adio a thynnu eich hun. Dim ond 6 ateb sydd angen gyda lliw arbennig i bob un. Gweler yr enghraifft - mosaic injan dân. | Creu cynllun dianc o'r tŷ pe bai tân. Dyluniwch gynllun syml o'ch tŷ a'i labelu. |
| ★★ | Ysgrifennwch stori yn dechrau, neu yn cynnwys, y frawddeg<br>'Ac yna fe glywais sŵn y seiren'<br>Cofiwch i ddefnyddio geirfa stori a geiriau trefn amser Pie Corbett. | Mae llawer o bobl sy'n ein helpu pan fod argyfwng! Mae angen creu drysfa ar bapur sgwar i bob tabl gan gyfrif fesul 2, 5, 10, 4, 3, a 8. Nesaf ysgrifennwch y tabl lluosi allan i gyfateb bob un. Gweler enghraifft Maze-10 Times table. | Darllenwch y Pwerbwynt am yr RNLI sydd ar wefan yr ysgol Creu model o fad achub yr RNLI a'i rhoi mewn dwr. Ystyriwch y deunyddiau rydych chi'n dewis a'r siap yn ofalus. Pa ddeunyddiau sy'n arnofio orau a pham? |
| ★★★ | Ysgrifennwch erthygl papur newydd i ddisgrifio argyfwng. Cofiwch i roi teitl i'r erthygl, llun, disgrifiad o beth ddigwyddodd a sut wnaeth y Gwasanaethau Argyfwng datrys y broblem. | Mae angen creu problemau geiriol mathemateg eich hun. Cofiwch greu sefyllfa gydag argyfwng ac i luosi, adio a thynnu e.e Mae 6 injan dân yn cyrraedd damwain yn y parc. Mae 4 dyn tân yn mhob un. Sawl dyn tân sydd yno i gyd? Beth yw eich ateb? | Edrychwch ar 'First Aid Challenge' o dan ein dosbarth ni ar wefan yr ysgol o dan Heriau Pythefnosol. Cwblhewch weithgaredd "Cadw'n Ddiogel". |

## Gallaf wneud... / Can do...

Heriau LEGO
Llyfrau sain David Walliams
Newsround – darllen y newyddio diweddaraf
ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp
Science experiment
Science Investigations – STEM website stemsational.com
Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd CVDTWINKLHELPS

Minecraft
Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg
Carol Vorderman – 'My Maths School'
Cip ar Fathemateg
SGILIAU – gemau i'w chwarae adref
Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp
Orielodl – fideo cam wrth gam
Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p

Dawnsio gyda Oti Mabuse
PBSkids.org - Gemau Darllen i blant
BBC Bitesize
Hour of Code
Gwefan TopMarks Mathemateg
Gwefan MathsFrame Mathemateg
mathsalamanders.com